**Manon Antoniazzi**
Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd
Chief Executive and Clerk of the Senedd

2 Chwefror 2024

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
(ar e-bost)

Annwyl Jenny

**Adroddiad ar yr ymchwiliad i atal trais ar sail rhywedd drwy ddulliau iechyd y cyhoedd**

Diolch am eich llythyr ynghylch adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ar ei ymchwiliad i atal trais ar sail rhywedd. Rydych wedi tynnu sylw at argymhelliad 12 gan y Pwyllgor, sy'n argymell bod pob Aelod o'r Senedd yn ymrwymo i gwblhau hyfforddiant ar atal trais ar sail rhywedd, ac wedi holi sut gallai'r Comisiwn hwyluso'r gwaith o gyflwyno'r hyfforddiant hwnnw.

Mae'r Comisiwn yn rhoi hyfforddiant i Aelodau i gefnogi'r gwaith o gyflawni eu dyletswyddau, gan gynnwys drwy staff yr Aelodau, a bydd yn trefnu bod hyfforddiant yn y maes penodol hwn ar gael. Bydd y tîm Dysgu ac Ymgysylltu ag Aelodau yn gweithio gyda'ch Pwyllgor yn y lle cyntaf i nodi dyddiad sy'n gyfleus. Wrth wneud trefniadau priodol ar gyfer hyfforddiant, byddwn yn ystyried y tri maes yr ydych wedi tynnu sylw atynt yn benodol, sef:

- rhagor o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o beth yw trais ar sail rhywedd;
- sgiliau ymyrryd gwell gan wylwyr, sy'n rhoi'r sgiliau i unigolion adnabod arwyddion o achosion posibl o drais ar sail rhywedd ac i ymyrryd yn ddiogel ac yn effeithiol; a
- chymhwysedd diwylliannol: deall cymhlethdodau sy'n gysylltiedig ag ymdrin â thrais ar sail rhywedd o fewn cyd-destunau diwylliannol amrywiol.

Mae gwybodaeth am y cymorth sydd ar gael wedi'i chynnwys ar dudalen Llesiant Mewnrwyd yr Aelodau, ac mae posteri codi ymwybyddiaeth yn cael eu harddangos ar hyn o bryd mewn nifer o leoliadau ar yr ystâd, ar gais y Comisiynwyr.

Mewn perthynas â staff y Comisiwn, mae'n ofynnol i bawb sy'n dechrau mewn rolau sydd â chyfrifoldebau rheoli gwblhau Rhaglen Rheolwyr Comisiwn y Senedd. Mae'r rhaglen hon yn darparu'r sgiliau a'r wybodaeth hanfodol sydd eu hangen ar staff i ddod yn rheolwr llinell sy'n perfformio i safon uchel yn y Senedd, gan gynnwys ymwybyddiaeth o'n polisïau a ble i ddod o hyd i'r canllawiau priodol. Yn ogystal â pholisïau a gweithdrefnau diogelu, mae gan y Comisiwn bolisi a chanllawiau ar gam-drin domestig, sy'n cydnabod cyfrifoldeb am les ein gweithwyr ac sy'n cydnabod y gall trais ar sail rhywedd fod yn fater yn y gweithle sy'n effeithio ar rai o'n gweithwyr.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Contact@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Contact@senedd.wales
0300 200 6565

Os oes unrhyw wybodaeth ychwanegol yr hoffai eich Pwyllgor ei chael, mae croeso i chi roi gwybod i mi.

Cofion gorau,

**Manon Antoniazzi**

**Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd / Chief Executive and Clerk of the Senedd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.